OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 685 (Cy.72)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*10 Mawrth 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2008*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac fe ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus fod—

(a) y cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at—

(i) Erthygl 55(1)(a),

(ii) Erthygl 55(2), i'r graddau y mae'n ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth eraill, a

(iii) y darpariaethau, neu ddarpariaethau y cyfeirir atynt, yn Adran III o Bennod III o Ran II,

o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth o farchnadoedd amaethyddol ac ar ddarpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol gosodedig (Rheoliad Sengl CMO)(**3**); a

(b) y cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 595/2004 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth(**4**),

i'w dehongli fel cyfeiriadau at yr Erthyglau a'r darpariaethau hynny ac at y Rheoliad Comisiwn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**5**).

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn i'w harfer gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t. 1.
(**4**) OJ Rhif L94, 31.3.2004, t. 22 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1913/2006 (OJ Rhif L365, 21.12.2006, t. 52). Er fod Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 (OJ Rhif 21.10.2003, t. 123) yn cael ei ddiddymu ar 1 Ebrill 2008 yn rhinwedd Erthygl 201(1)(b) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ("Rheoliad 2007"), mae'r cyfeiriad at Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Reoliad 2007 yn rhinwedd Erthygl 202 o Reoliad 2007.
(**5**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2008.

Diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth 2005

2. Diwygir Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005(**6**) yn unol â'r Atodlen.

Diwygiad canlyniadol

3. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2007(**7**) hepgorer paragraff (2).

Elin Jones
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

10 Mawrth 2008

(**6**) O.S. 2005/537 (Cy.47), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/762 (Cy.72) ac O.S. 2007/844 (Cy.76).
(**7**) O.S. 2007/844 (Cy.76).

YR ATODLEN Rheoliad 2

Diwygiadau i Reoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005

1. Yn lle rheoliad 2(1) rhodder—

"**2.**—(1) Yn y rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "ardal Ynysoedd yr Alban" ("*Scottish Islands area*") yw naill ai—

(a) ynysoedd Erch ac eithrio ynys Stronsay; neu

(b) ynysoedd Jura, Gigha, Arran, Bute, Great Cumbrae a Little Cumbrae, penrhyn Kintyre i'r de o Tarbert a'r darnau o dir o fewn Rhanbarth Argyll a Bute yn cynnwys y rhannau hynny o blwyfi Dunoon a Kilmun ac Inverchaolain a ddangosir gan linell goch ar fap wedi'i farcio "Y map y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) y diffiniad o ardal Ynysoedd yr Alban yn rheoliad 2(1) Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005", dyddiedig 31 Ionawr 2005, a lofnodwyd ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ac a adneuwyd yn swyddfeydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Nobel House, 17 Smith Square, Llundain SW1P 3JR;

ystyr "ardoll" ("*levy*") yw'r ardoll gwargedol sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan ddeddfwriaeth y Gymuned a'r Rheoliadau hyn;

mae i "awdurdod cymwys" yr ystyr a roddir i "*competent authority*" yn rheoliad 2(1) y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol;

mae i "awdurdod cymwys perthnasol" yr un ystyr ag sydd i "*relevant competent authority*" yn rheoliad 3 y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol;

ystyr "blwyddyn gwota" ("*quota year*") yw unrhyw un neu unrhyw rai o'r cyfnodau o 12 mis y cyfeirir atynt yn Erthygl 66(1) o Reoliad y Cyngor;

mae "buddiant" ("*interest*") yn cynnwys trwydded i feddiannu tir a buddiant morgeisedig ac ymddiriedolwr, ond nid yw'n cynnwys buddiant buddiolwr o dan ymddiriedolaeth neu setliad;

mae "buwch" ("*cow*") yn cynnwys heffer sydd wedi bwrw llo;

ystyr "cwota" ("*quota*") yw cwota gwerthiannau uniongyrchol neu gwota cyfanwerthol, yn ôl y digwydd;

ystyr "cwota addasedig" ("*converted quota*") yw cwota a addaswyd gan Weinidogion Cymru yn dilyn cais a wnaed o dan reoliad 21;

ystyr "cwota cyfanwerthol" ("*wholesale quota*") yw cyfanswm y llaeth y gellir ei ddanfon at brynwr gan gynhyrchwr mewn blwyddyn gwota heb i'r cynhyrchwr hwnnw fod yn agored i dalu ardoll;

ystyr "cwota cyfanwerthol cofrestredig" ("*registered wholesale quota*") yw cwota cyfanwerthol a gofrestrwyd yn unol â rheoliad 4(3) a (4);

ystyr "cwota gwerthiannau uniongyrchol" ("*direct sales quota*") yw cyfanswm y cynnyrch llaeth y gellir ei werthu neu ei drosglwyddo am ddim drwy werthiannau uniongyrchol gan gynhyrchwr mewn blwyddyn gwota heb i'r cynhyrchwr fod yn agored i dalu ardoll;

ystyr "cwota nas defnyddiwyd" ("*unused quota*") yw cwota sy'n weddill heb ei ddefnyddio ar ôl ystyried unrhyw werthiannau uniongyrchol neu ddanfoniadau, yn dilyn y cyfryw addasu (os o gwbl) ag sy'n ofynnol yn Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn (sy'n ymwneud â chynnwys braster llaeth), a dehonglir "cwota a ddefnyddiwyd" ("used quota") yn unol â hynny;

ystyr "cwota prynwr" ("*purchaser quota*") yw cyfanswm y llaeth y gellir ei ddanfon i brynwr yn ystod blwyddyn gwota heb arwain at unrhyw atebolrwydd i dalu ardoll;

mae i "cyfathrebu electronig" yr ystyr sydd i "*electronic communication*" yn adran 15 o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**8**);

ystyr "cynhyrchwr cyfanwerthol" ("*wholesale producer*") yw cynhyrchwr sy'n danfon llaeth at brynwr;

mae i "cynhyrchwr" yr un ystyr ag sydd i "*producer*" yn Erthygl 65(c) o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cynnyrch llaeth" ("*dairy produce*") yw cynnyrch, a fynegir mewn cilogramau neu litrau (mae un cilogram yn cyfateb i 0.971 litr), y mae ardoll yn daladwy mewn perthynas ag ef;

mae i "daliad" yr ystyr sydd i "*holding*" yn Erthygl 65(d) o Reoliad y Cyngor;

mae i "danfoniad" yr un ystyr ag sydd i "*delivery*" yn Erthygl 65(f) Rheoliad y Cyngor, a dehonglir "danfon" ("deliver") yn unol â hynny;

ystyr "deddfwriaeth y Gymuned" ("*the Community legislation*") yw Rheoliad y Comisiwn ac—

(a) Erthygl 55(1)(a),

(b) Erthygl 55(2), i'r graddau y mae'n ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth eraill, ac

(c) y darpariaethau yn, neu y cyfeirir atynt yn, Adran III o Bennod III o Ran II,

o Reoliad y Cyngor;

mae "deiliad" ("*occupier*"), mewn perthynas â thir, yn cynnwys y person sydd â'r hawl i roi deiliadaeth y tir hwnnw i berson arall, a, thra pery'r buddiant a grybwyllir yn rheoliad 16(1), y person sydd â'r hawl i roi deiliadaeth y tir pan ddaw'r buddiant hwnnw i ben, ac mae "deiliadaeth" ("*occupation*") i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "deiliad cwota" ("*quota holder*"), mewn perthynas â chwota, yw'r person y mae'r cwota wedi'i gofrestru yn ei enw;

ystyr "deiliad cwota cyfanwerthol" ("*wholesale quota holder*") yw person y mae cwota cyfanwerthol wedi'i gofrestru yn ei enw yn unol â rheoliad 4;

ystyr "deiliad cwota gwerthiannau uniongyrchol" ("*direct sales quota holder*") yw person y mae cwota gwerthiannau uniongyrchol wedi'i gofrestru yn ei enw yn unol â rheoliad 4;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Masnachu Ariannol 1971(**9**);

ystyr "dosraniad rhagolygol" ("*prospective apportionment*"), o ran cwota mewn perthynas â daliad, yw dosraniad cwota rhwng y personau y mae ganddynt fuddiant yn y daliad at ddibenion canfod y cwota y gellir ei briodoli i ran o'r daliad hwnnw os caiff y rhan honno ei throsglwyddo;

mae i "y gronfa genedlaethol" yr un ystyr ag sydd i "*national reserve*" yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol;

ystyr "Gweinidogion Cymru" ("*the Welsh Ministers*") yw Gweinidogion Cymru fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**10**);

(**8**) 2000 p.7.
(**9**) 1971 p. 80.
(**10**) 2006 p.32.